# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 17.12.08

**Presennol:** Y Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd);
Y Cynghorwyr E.M. Jones a Ieuan Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Gareth W. Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol); Sion Huws (Swyddog Priodoldeb); Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu), a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:</u>**

**Yn cynrychioli'r Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu); Y Cwnstabl Richard Hughes (cwnstabl lleol Y Bala); y Rhingyll Wynne Lane

**Ymgeiswyr**: Mr a Mrs J.S.Walsh (Deiliaid Trwydded y Goat); Mr Andrew Cochrane, cyfreithiwr ar ran Mr a Mrs Walsh; Mr Nutkin (cynrychioli'r Bragdy)

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Dylan Edwards, yr aelod lleol.

.

**1. CAIS I ADOLYGU TRWYDDED GWESTY'R GOAT, Y BALA**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar gais yr Heddlu i adolygu Trwydded Eiddo gwesty'r Goat, Y Bala, o ganlyniad i nifer o achosion o drais, meddwdod, yfed alcohol ar ôl yr oriau trwyddedig ac o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn neu tu allan i westy'r Goat.

Adroddwyd i dderbyn llythyr gan yr Aelod lleol, Y Cyng. Dylan Edwards, yn datgan ei fod yn cytuno ag argymhellion yr Heddlu.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

i. rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd yr Heddlu;

ii. Cafodd deilydd y drwydded a'i gynrychiolydd gyfle i ymateb i'r sylwadau;

iii. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded a'r cynrychiolydd

iv. Cafodd yr Ymgeisydd a deilydd y drwydded a'i gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Wrth gyflwyno sylwadau i gefnogi'r cais rhannwyd rhestr o 32 o ddigwyddiadau a gofnodwyd rhwng Medi 2006 a Rhagfyr eleni lle y galwyd yr Heddlu i'r eiddo, dau ohonynt yn achosion o werthu alcohol i rai dan oed, nifer o achosion o ymladd ac un lle anafwyd aelod o'r Heddlu wrth geisio arestio person oedd yn achosi cynnwrf oddi mewn i'r eiddo. Problem arall yw cwsmeriaid sy'n yfed tu allan i'r gwesty ac yn gadael gwydrau o gwmpas sydd yn ddiweddarach yn cael eu malu ar y stryd oherwydd nad oes neb yn eu casglu nac yn clirio.

Mae nifer yr achosion yn peri pryder i swyddogion yr Heddlu yn enwedig gan eu bod dros gyfnod hir o amser, er gwaethaf cyfarfod a gynhaliwyd rhwng yr Heddlu a Mr Walsh yn ystod mis Tachwedd, 2006, i drafod problemau o'r un math, a gwelir hynny'n arwydd o ddiffyg rheolaeth gan ddeilyddion y drwydded dros eu cwsmeriaid. Cyfeiriwyd hefyd at y cyfrifoldeb sydd ar denantiaid i gadw log cywir o bob digwyddiad anghymdeithasol sy'n digwydd ar y safle, rhywbeth sy'n amlwg ddim yn cael ei gadw yn achos y Goat.

Gan fod angen presenoldeb yr Heddlu lle bynnag y cofnodir digwyddiad anghymdeithasol, golyga hynny bod eu presenoldeb yn brin ar gyfer ardaloedd eraill.

Wrth ymateb i gais yr Heddlu, cyflwynodd cynrychiolydd tenant y Goat y sylwadau canlynol:

- Ar nos Sadwrn/fore Sul mae'r achosion amlaf o achosion gwrthgymdeithasol, ac felly pam argymell cwtogi oriau nos Wener?
- Oherwydd bod tafarnau eraill yn cau ynghynt na'r Goat, mae cwsmeriaid y tafarnau eraill yn dod ymlaen i'r Goat o'r rheiny ac achosi problemau oherwydd gor-yfed
- O ystyried y pwynt blaenorol, byddai'r tenantiaid yn fodlon ystyried oriau cau cynharach i'r Goat, i gyd-fynd â thafarnau eraill y dref
- Ynglŷn â'r achos pan ddefnyddiwyd y gwn Tazer - nid y Goat oedd yr unig dafarn lle bu problemau ar y noson; honnwyd bod criwiau wedi dod i'r dref o'r tu allan i greu anhrefn
- Byddai'r tenantiaid yn fodlon ystyried rhoi goruchwylwyr ar y drysau rhwng oriau penodol i helpu'r sefyllfa
- Pe glynir at argymhelliad yr Heddlu i gwtogi'r oriau, mae pryder y byddai hynny'n difetha busnes y Goat yn llwyr, gan eu bod yn dibynnu'n helaeth ar yr elw a wneir yn hwyr y nos- awgrymir cwtogi'r oriau i fod ar agor hyd at 01.00awr fore Sadwrn a hanner nos Nos Sadwrn.

Mewn ymateb, datganodd cydlynydd yr Heddlu eu bod yn fodlon ystyried peidio ag argymell Goruchwylwyr ar y drysau ar nos Wener, a'u bod yn falch o'r cynnig o drefnu cydlynydd rhwng y Bragdy a'r Heddlu i geisio osgoi problemau yn y dyfodol..

Gadawodd y tenantiaid a'u cynrychiolydd, swyddogion yr Heddlu a'r swyddogion Trwyddedu yr ystafell tra'r oedd aelodau'r Is-bwyllgor yn trafod y cais.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau canlynol:-

- Yn ôl y rhestr o ddigwyddiadau a gyflwynwyd gan yr Heddlu, mae rhai trafferthion wedi digwydd ar nosweithiau Gwener yn ogystal â nosweithiau Sadwrn
- Ni welwyd gwelliant digonol yn y sefyllfa er i'r Heddlu drefnu cyfarfod yn ystod mis Tachwedd 2006 i drafod problemau
- Ystyrir bod argymhelliad yr Heddlu yn rhesymol o ystyried y trafferthion parhaol a fu ynghylch yr eiddo
- Cyfeiriwyd at gamgymeriad yn y drwydded argraffedig gyfredol oherwydd i fethu cynnwys oriau agor ar Wyliau Banc hyd at 2.30yb, a bod ar agor hyd at 3.00yb.

**PENDERFYNWYD diwygio trwydded gwesty'r Goat, Y Bala fel a ganlyn:**

**i) Dydd Sul i Ddydd Iau – dim newid i'r drwydded bresennol**

**ii) Dydd Gwener a Dydd Sadwrn - cyflenwi alcohol o 09.00 hyd at 23.45; yr eiddo i fod ar agor o 09.00 hyd at 00.15**

**iii) Goruchwylwyr ar y drws wedi eu cofrestru gyda ADD i fod ar ddyletswydd ar nos Sadwrn ac ar Wyliau Banc 22.00awr hyd at yr amser mae'r eiddo yn cau.**

**iv) Penwythnosau Gwyliau Banc (Gwener i Llun), Noswyl Nadolig, Gŵyl San Steffan - cyflenwi alcohol o 09.00 hyd at 01.00, gyda'r oriau agor i fod o 09.00 hyd at 01.30awr.**

**v) Cyfreithiwr y Bragdy i weithredu fel cydlynydd rhwng Heddlu Gogledd Cymru â'r Bragdy.**

**vi) Yr eiddo i weithredu polisi “Challenge 21” lle mae’r hawl gan y tafarnwr i ofyn am weld cerdyn adnabod unrhyw berson sy’n ymddangos yn iau na 21 oed**

**vii) Pob digwyddiad nodedig i’w gofnodi mewn llyfr pwrpasol (Incident Log) sydd i fod ar gael i Heddlu Gogledd Cymru**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol yr anfonir llythyr i bawb o fewn pum diwrnod gwaith yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor, gan hysbysu pawb o’r hawl i apelio yn erbyn dyfarniad yr Is-bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 1.00pm